Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



# Tlodi ac allgáu cymdeithasol: Ffordd ymlaen

**Dan Bristow, Anna Skeels,
Manon Roberts, Isabelle Carter**

Medi 2022

www.wcpp.org.uk/cy

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i roi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen llunio gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisïau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, llunio, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r modd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a chyflwyno polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk/cy/

## Cyllidwyr Craidd

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

UKRI Economic and Social Research Council

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **4** |
| **Cyflwyniad** | **5** |
| **Darparu ymateb** | **8** |
| 1) Blaenoriaethu | 9 |
| 2) 'Cymysgedd polisi' | 10 |
| 3) Asiantau a strwythurau cyflenwi | 10 |
| 4) Monitro | 12 |
| 5) Cyfranogiad | 13 |
| **'Fframwaith blaenoriaethu'** | **14** |
| Lleihau costau a chynyddu incwm | 15 |
| 'Llwybrau' allan o dlodi | 21 |
| Amgylchedd galluogi | 24 |
| Baich meddwl a llwyth meddwl | 27 |
| Llywodraethu a chyflenwi | 28 |
| Monitro ac ymchwil | 29 |
| Cyfranogiad | 29 |
| **Casgliad** | **30** |
| **Cyfeirnodau** | **31** |

# Crynodeb


- Comisiynodd Llywodraeth Cymru Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) i gynnal adolygiad o strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau rhyngwladol mewn perthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol.

- Cynhyrchwyd set sylweddol o adroddiadau ar sail tystiolaeth ar gyfer y prosiect hwn, i lywio dull Llywodraeth Cymru o liniaru tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

- Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod tlodi ac allgáu cymdeithasol yn 'broblemau' cymhleth, amlochrog a deinamig i fynd i'r afael â nhw, sy'n rhychwantu meysydd polisi, gweithredwyr a strwythurau cyflwyno lluosog. Mae profiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru yn adlewyrchu hyn.

- Mae strategaeth wrthdlodi dda yn gwneud gwahaniaeth mawr. Er mwyn i strategaeth fod yn fwy na rhestr o fentrau polisi perthnasol, mae angen canolbwyntio ar y modd y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y rhai sy'n gallu gweithredu yn gwneud hynny.

- Gall strategaeth wrthdlodi gynyddu ei heffeithiolrwydd i’r eithaf drwy sicrhau cymysgedd priodol o bolisïau ac ymyriadau; cynllunio ac ystyried asiantau cyflenwi yn ofalus; monitro; a chyfranogiad parhaus y rhai sydd â phrofiad bywyd.

- Rydym yn cynnig un 'fframwaith blaenoriaethu' posibl, yn seiliedig ar ein gwaith. Byddai hyn yn cynnwys pedwar maes ffocws traws-bolisi, neu flaenoriaethau, ar gyfer gweithredu: (1) lleihau costau aelwydydd a chynyddu incwm (2) cefnogi llwybrau allan o dlodi (3) datblygu amgylchedd galluogi a (4) mynd i’r afael â llwyth meddwl a baich meddwl byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

- Ni fydd casglu ymyriadau polisi ynghyd ar y sail hon yn ddigonol ar ei ben ei hun. Mae angen i’r prosesau ar gyfer goruchwylio ac atebolrwydd gyd-fynd â’i gilydd er mwyn cyflawni; a lle bo'n briodol, mae angen i’r broses gyflawni ei hun gael ei chydlynu.

- Mae angen i Lywodraeth Cymru ddiffinio ei rôl o ran perswadio, cefnogi, galluogi a herio'r partneriaid sy’n gysylltiedig, a sicrhau bod digon o gapasiti’n cael ei neilltuo ar gyfer hyn.

- Mae angen rhoi sylw hefyd i'r dull o fonitro cynnydd, a mesur 'llwyddiant', er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn gallu ymateb ac addasu i amgylchiadau sy'n newid, ac i alluogi dealltwriaeth o effaith ymdrechion y Llywodraeth i gefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru.

# Cyflwyniad

Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol yn broblemau mawr yng Nghymru. Cyn yr argyfwng costau byw presennol, roedd cyfraddau tlodi wedi aros yn gymharol ddisymud am 20 mlynedd ac, am lawer o'r cyfnod hwnnw, yn uwch nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Stats Cymru, 2020), gyda bron i chwarter y bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) i gynnal adolygiad o strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau rhyngwladol mewn perthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol i lywio lliniaru tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru. Seiliwyd y gwaith hwn, a ddaeth i ben ar ddiwedd 2021, ar ddiffiniad aml-elfen o dlodi, yn cynnwys elfennau cymdeithasol yn ogystal ag economaidd, a oedd yn defnyddio Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM)[1] (Levitas et al., 2007) ac yn adlewyrchu safbwynt eang, cyfannol Llywodraeth Cymru.[2]

Mae'r gyfres o adroddiadau a gynhyrchwyd ar gyfer yr adolygiad, a nodir yn Nhabl 1, yn dwyn ynghyd gronfa sylweddol o dystiolaeth feintiol, ansoddol a phrofiad bywyd. Mae'n cynnwys adroddiad ar yr hyn sy'n gwneud strategaeth wrthdlodi 'dda' (Kenway et al., 2022) a gwerthusiad aml-ran o effeithiolrwydd ymyriadau sy'n mynd i'r afael ag elfennau penodol o dlodi ac allgáu cymdeithasol sy'n gysylltiedig â pholisi (Bucelli a McKnight, 2022b-m). Dewiswyd deuddeg elfen o'r fath gan Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio arnynt yn yr adolygiad, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cysylltu â'r B-SEM. Dangosir crynodeb o gryfder y dystiolaeth ar gyfer y deuddeg maes polisi hyn yn yr adroddiad trosolwg (Bucelli a McKnight, 2022a). Mae'r ddwy ran hyn o'r adolygiad yn defnyddio tystiolaeth ryngwladol.

Mae'r adolygiad a gomisiynwyd hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r sefyllfa neu 'giplun' o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru (Carter, 2022a). Ers iddo gael ei gynnal, mae'r sefyllfa yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig wedi newid yn sylweddol, gyda phrisiau bwyd ac ynni'n codi, wedi'u hysgogi'n rhannol gan ddechrau'r rhyfel yn Wcráin, a chyfres o benderfyniadau'r llywodraeth wrth ymateb i hyn, ar lefel y Deyrnas Unedig a Chymru. Mae'r trywydd yn ansicr o hyd, ond mae'n amlwg bod y sefyllfa wedi gwaethygu ers i ni gynnal ein hadolygiad, ac y bydd tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i fod yn broblem fawr am beth amser.

Nid yw'r adroddiad terfynol hwn yn ceisio crynhoi holl allbynnau a chanfyddiadau'r prosiect. Yn hytrach, rydym yn tynnu o'r ymchwil yn fwriadol ac yn ddetholus er mwyn ceisio llywio camau gweithredu yn y dyfodol. Mae dull o'r fath yn ein galluogi i dynnu sylw at y berthynas *rhwng* y gwahanol seiliau tystiolaeth i wneud rhai awgrymiadau ar sut y gallai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

1 Diffiniad Llywodraeth Cymru o dlodi yw'r diffiniad a nodir yn ei Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2011) o hyd: "Yr hyn a olygwn gan dlodi yw cyflwr hirdymor o beidio â chael digon o adnoddau i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau (fel mynediad i gymdogaethau atyniadol a mannau agored) a gymerir yn ganiataol gan eraill yn eu cymdeithas."

2 Datblygwyd y B-SEM yn 2007 fel ffordd o ddeall achosion allgáu cymdeithasol yn well. Bwriedir i'r matrics gael ei ddefnyddio i archwilio achosion ar draws oes pobl – plentyndod, ieuenctid, byd oedolion o oedran gweithio ac yn hwyrach mewn bywyd. Mae wedi'i strwythuro o amgylch tri maes allweddol (yr adnoddau sydd ar gael i unigolion; eu gallu i gymryd rhan mewn ystod eang o feysydd; ac ansawdd eu bywyd yn gyffredinol), gyda deg agwedd wahanol ('is-barthau') o allgáu cymdeithasol yn dod o dan y rhain (Bucelli a McKnight 2022a-m).

I gefnogi'r dull hwn, amlinellwn bum ystyriaeth bwysig y mae angen adrodd arnynt wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu ei strategaeth lliniaru tlodi. Amlinellir y rhain yn adran 3 ac maen nhw'n ymwneud â'r canlynol:

1. **Ffocws neu flaenoriaeth y strategaeth,**
2. **O ystyried y ffocws hwnnw, y cyfuniad perthnasol o bolisïau neu 'gymysgedd polisi' a nodwyd,**
3. **Sut y bydd cyrff cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cael eu rhoi ar waith ac yn atebol,**
4. **Sut y bydd cynnydd a 'llwyddiant' yn cael eu mesur a'u monitro, a**
5. **Sut i sicrhau cyfranogiad ystyrlon y rhai y mae'r strategaeth yn ceisio eu cefnogi.**

Mae un enghraifft o sut gallai blaenoriaethu a nodi cymysgedd polisi o'r fath gael ei gyflawni - 'fframwaith blaenoriaethu' - wedi'i hamlinellu yn adran 4.

Mae'r fframwaith wedi'i seilio ar bedwar maes ffocws y gellid cydlynu ymdrechion lliniaru tlodi o'u hamgylch:



1. **Lleihau costau a chynyddu incwm —** lleihau'r galwadau ar gyllideb aelwydydd a chynyddu incwm fel bod anghenion sylfaenol yn cael eu bodloni



2. **'Llwybrau' allan o dlodi —** mynediad at waith (o ansawdd uwch/sy'n talu'n well), gofal plant hyblyg a fforddiadwy, a chyfranogiad economaidd-gymdeithasol ehangach



3. **Amgylchedd galluogi —** mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig ag amgylchedd neu gymdogaeth uniongyrchol pobl



4. **Llwyth meddwl ac iechyd meddwl —** mynd i'r afael â'r baich emosiynol a seicolegol a ysgwyddir gan bobl sy'n byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol.

Dewiswyd y meysydd ffocws hyn yn fwriadol i ddangos sut mae nifer o agweddau ac ysgogwyr tlodi ac allgáu cymdeithasol yn rhyng-gysylltu, o fewn a rhwng y pedwar maes hyn. Mae sylw manylach i'r pedwar maes hyn yn yr adroddiad hwn (ac yn y deuddeg adroddiad polisi sy'n cyfrannu ato) yn rhoi arwyddion o sut, er enghraifft, y gallai ystyriaethau ynghylch cyflawni effeithiol, atebolrwydd, monitro cynnydd, a chyfranogiad ystyrlon gael eu gweithredu neu eu cyflawni.

## Tabl 1. Crynodeb o'r adroddiadau a gynhyrchwyd ar gyfer prosiect WCPP ar dlodi ac allgáu cymdeithasol

| Awdur | Ffocws yr adroddiad(au) | Math o dystiolaeth a adolygwyd | Nifer yr allbynnau | Cyfeirnod |
|---|---|---|---|---|
| Sefydliad Polisi Newydd (NPI) | **Adolygiad o strategaethau rhyngwladol yn ymwneud â thlodi ac allgáu cymdeithasol, sy'n gorffen gyda rhestr wirio o nodweddion strategaeth wrthdlodi effeithiol** | Astudiaethau achos rhyngwladol | 1 adroddiad | Kenway et al. (2022) |
| Y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol Economeg Llundain | **Adolygiadau o dystiolaeth ryngwladol ar effeithiolrwydd polisïau a rhaglenni sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol** | Tystiolaeth ryngwladol o'r 'hyn sy'n gweithio' | 12 adroddiad ar feysydd polisi penodol ac 1 adroddiad trosolwg | Bucelli a McKnight (2022a-m) |
| Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru | **Trosolwg o dueddiadau'r gorffennol, y presennol a'r tueddiadau posibl yn y dyfodol mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru**<br><br>**Adolygiad o'r dystiolaeth o brofiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru** | Tystiolaeth/data meintiol<br><br>Tystiolaeth eilaidd, ansoddol | 2 adroddiad | Carter (2022a; 2022b) |
| Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru | **Canlyniadau pedwar gweithdy a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru gyda phobl â phrofiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol** | Tystiolaeth wreiddiol, profiad bywyd | 1 adroddiad | Roberts (2022) |

# Darparu ymateb

Mae'r dadansoddiad o'r sefyllfa a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad (Carter 2022a; 2022b) yn dangos bod tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru yn sylweddol, yn gymhleth ac yn ddeinamig. Mae hyn yn golygu bod y dull mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio — *sut* mae'n gweithio i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol — yr un mor bwysig â'r mesurau unigol y mae'n eu mabwysiadu. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall strategaeth dda wneud gwahaniaeth mawr (Kenway et al., 2022).

Mae'r adroddiad ar yr hyn sy'n gwneud strategaeth wrthdlodi'n effeithiol, a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, yn nodi bod strategaeth lliniaru tlodi effeithiol yn aml yn cynnwys:

**"... cyflwyno mentrau lluosog ar draws meysydd polisi amrywiol, gyda phartneriaid cyflenwi gwahanol, a graddau amrywiol o reolaeth neu ddylanwad dros [...] weithredu"**

(Kenway et al., 2022, t.5)

Felly, mae angen i strategaeth effeithiol fod yn fwy na rhestr o fentrau perthnasol; mae'n gofyn am ymdrech sylweddol drwy rwydwaith cydgysylltiedig o bolisïau a strwythurau y gellir eu gweithredu sy'n gallu *cyflawni.* Gwerth ychwanegol penodol strategaeth dda yw ei bod yn gweithredu fel modd i'r rhai sydd *eisiau gweithredu* alluogi neu orfodi'r rhai sy'n gallu *cymryd camau* i wneud hynny (Kenway et al., 2022).

Mae'r adroddiad ar strategaethau gwrthdlodi effeithiol yn tynnu sylw at yr angen am y canlynol:

- **Blaenoriaethu:** mae'n rhaid gwneud dewisiadau. Dylai'r strategaeth fod yn glir ynghylch yr hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni a chynnwys camau gweithredu sy'n gwasanaethu'r diben hwnnw yn unig.
- **Realaeth:** o ystyried yr adnoddau a'r pwerau cyfyngedig y gall llywodraeth ddatganoledig eu defnyddio, mae'n anochel y bydd bwlch rhwng yr hyn y byddai llywodraeth eisiau ei wneud yn ddelfrydol a'r hyn y mae'n gallu ei wneud; a chyda mater mor gymhleth, bydd newid ystyrlon yn cymryd mwy o amser nag sy'n ymarferol yn wleidyddol. Y peth pwysicaf fydd treulio amser yn ystod y camau cynnar ar ddylunio da, cynllunio a gweithredu. Heb hyn, gall llywodraethau syrthio i fagl datblygu strategaeth, polisi neu ymyrraeth a ddylai fod yn effeithiol ar bapur, ond sy'n methu yn ymarferol oherwydd nad oes ganddo ddigon o adnoddau, oherwydd ei fod wedi'i ddylunio'n wael neu oherwydd nad oes ganddo gynllun gweithredu.
- **Cydlynu:** mae cyflawni sawl maes polisi, gyda phartneriaid lluosog, yn gofyn am fuddsoddi yn nulliau llywodraethu'r strategaeth. Er enghraifft, mae'n rhaid i Weinidog ar lefel ddigon uchel sydd â digon o ddylanwad traws-bolisi fod yn gyfrifol am sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith. Mae angen sicrhau hefyd bod dulliau ar waith i gydlynu ar wahanol lefelau; a modd i sicrhau bod dealltwriaeth dda a manwl o gynnydd.
- **Gallu i addasu:** dylai'r strategaeth 'allu dysgu wrth iddi fynd yn ei blaen, gyda mesurau canlyniadau yn cyflawni swyddogaeth gynyddol' (Kenway et al., 2022, tud.4). Dylai allu dangos yr hyn sy'n gweithio, dros amser.

Mae'r adroddiad cryno ar effeithiolrwydd polisïau a rhaglenni (Bucelli a McKnight, 2022a-m), a'r gweithdai a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gyda'r rhai sydd â phrofiad bywyd uniongyrchol o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru (Roberts, 2022) fel rhan o'r adolygiad, ill dau yn ategu'r pwyntiau hyn.

Er enghraifft:

- Mae polisïau neu raglenni effeithiol yn gofyn am gydlynu ar draws ymyriadau cysylltiedig, h.y., **'cymysgedd polisi'** sy'n ymateb i gydgysylltiad y broblem a sut y caiff ei phrofi ar draws gwahanol feysydd polisi. Mae'r cydgysylltiad hwn yn amlwg pan fydd straeon unigol am brofiad bywyd yn dangos, er enghraifft, sut mae incwm cartref yn dibynnu ar y rhyngweithio rhwng argaeledd gofal plant fforddiadwy, cyfleoedd gwaith hyfyw a seilwaith trafnidiaeth addas.

- Er gwaethaf sylfaen dystiolaeth 'gref' neu 'dda' ar gyfer ystod o raglenni ac ymyriadau (Bucelli a McKnight, 2022a), mewn meysydd polisi eraill, gall y dystiolaeth o'r 'hyn sy'n gweithio' fod yn anghyson. Felly, bydd angen i unrhyw strategaeth fod â ffordd o bennu gwerth neu effaith ymyriadau ac addasu dros amser.

Beth, felly, y gallai hyn ei olygu i unrhyw ymateb gan Lywodraeth Cymru? Wedi'i lywio gan y negeseuon cyfunol ar draws y gwaith a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad, awgrymwn fod angen i Lywodraeth Cymru adrodd ar **bum ystyriaeth bwysig** wrth iddi ddatblygu unrhyw strategaeth wrthdlodi newydd. Mae'r rhain yn cael eu mynegi a'u trafod isod yn eu tro.

## 1) Blaenoriaethu

### *Beth yw ffocws neu flaenoriaeth y strategaeth? Sut bydd yn ychwanegu at ymdrechion presennol ac yn adeiladu arnynt?*

Mae gan Lywodraeth Cymru lu o fentrau eisoes sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi a lliniaru ei effeithiau, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Un ystyriaeth, felly, yw beth fyddai pwrpas unrhyw strategaeth *newydd* (Kenway et al., 2022)?

Fel y nodwyd yn y Cyflwyniad, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar dlodi mewn ffordd eang a chyfannol. Mae hyn yn golygu y bydd ei mentrau'n cwmpasu ystod yr un mor eang o feysydd polisi.

Yn y cyd-destun hwn, dylai unrhyw ymdrech 'flaenoriaethu' geisio datblygu strategaeth sy'n darparu cydlyniant:

**"mae'n rhaid i gamau gweithredu fod yn gysylltiedig ag amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir, ac mae'n rhaid i wahanol amcanion fod â rhywfaint o undod rhyngddynt"**

(Kenway et al., 2022, tud.38)[3]

Felly, byddai blaenoriaethu'n ymdrech i ddarparu fframwaith a all ddod â chydlyniant i'r mentrau lluosog sy'n rhan o'r strategaeth gyffredinol; ac fel y cyfryw byddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r fframwaith hwn fel sail ar gyfer cydlynu'r broses o ddarparu gweithgareddau ar draws partneriaid.

Dewis gwleidyddol, wrth gwrs, yw pa flaenoriaethau i'w gosod neu eu cynnwys mewn 'strategaeth' wrthdlodi ar gyfer Cymru. Fe all (ac fe ddylai) gael ei llywio gan dystiolaeth, ond ni all tystiolaeth ar ei phen ei hun bennu'r blaenoriaethau. Mae unrhyw flaenoriaethu, wrth gwrs, yn gwahodd trafodaeth a gwrth-flaenoriaethu. Felly, mae angen iddo allu cael ei amddiffyn, ac i densiynau - a fydd yn codi'n naturiol oherwydd y bwlch rhwng y delfrydol a'r hyn sy'n bosibl ac y gellir ei ariannu - allu cael eu rheoli a'u trin yn adeiladol. Dylai safbwyntiau'r rhai sydd â phrofiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol fod yn allweddol wrth benderfynu beth sydd bwysicaf.

3 Mae Strategaeth Lleihau Tlodi Toronto (2015-2035) yn enghraifft o fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn fwriadol ar draws set wedi'i blaenoriaethu o feysydd polisi ac agweddau ar fywydau pobl yn ogystal ag ymgais i fynd i'r afael â sbardunau strwythurol tlodi. Roedd y Strategaeth, gyda chynlluniau gweithredu pedair blynedd treigl, yn cynnwys pum maes thematig fel blaenoriaethau - sef sefydlogrwydd tai, mynediad at wasanaethau, tegwch teithio (trafnidiaeth gyhoeddus), mynediad at fwyd, a swyddi o ansawdd ac incwm byw. Roedd hefyd yn anelu at newid systemig, er enghraifft, ysgogi pŵer economaidd y ddinas i sbarduno twf economaidd cynhwysol ac ymgysylltu â staff a thrigolion y ddinas ar ymdrechion i leihau tlodi. Roedd y Strategaeth hefyd yn rhoi arweiniad ar ffurfio sut oedd asiantaethau ac is-adrannau'n deall tlodi a'u cyfrifoldeb amdano.

## 2) 'Cymysgedd polisi'

*Yng ngoleuni'r blaenoriaethau hyn, beth fydd y cyfuniad perthnasol o ymyriadau polisi (neu 'gymysgedd polisi')?*

Mae angen i ymdrechion i gefnogi'r rhai sy'n profi tlodi, neu sydd mewn perygl o brofi tlodi, geisio adlewyrchu'r rhyngweithio cymhleth rhwng ffactorau amrywiol:

**“Mae nifer o ffactorau sy’n sbarduno tlodi ac allgáu cymdeithasol, ac felly nid yw un polisi unigol yn ddigon i'w lleihau. Yr hyn sydd ei angen yw strategaeth sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â natur amlochrog tlodi ac allgáu cymdeithasol.”**

(Bucelli a McKnight, 2022a, tud.5)

Yn ein gwaith, rydym wedi ystyried ystod o 'ffactorau' a all ryngweithio i greu'r amodau lle gall pobl brofi tlodi ac allgáu cymdeithasol **(Ffigur 1)**. Er bod hyn wedi’i seilio ar ystyriaeth o *rai* elfennau yn unig o feysydd allgáu cymdeithasol B-SEM, yr hyn sydd eisoes yn glir yw graddfa'r cymhlethdod yn ogystal â rhyngweithio cyson *rhwng* y ffactorau hyn (ac eraill); gyda rhai yn gweithredu fel 'achosion' ac 'effeithiau'.

Wrth ddatblygu ei hymateb, felly, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried y cydadwaith rhwng gwahanol elfennau tlodi ac allgáu cymdeithasol a datblygu 'cymysgeddau polisi' priodol mewn perthynas â'r blaenoriaethau a nodwyd.

Mae Tlodi Plant: Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm (IMAP) (Llywodraeth Cymru, 2020) yn enghraifft o hyn. Roedd yr IMAP yn set o gamau ymarferol *ar draws* meysydd polisi (e.e. addysg, trafnidiaeth, nawdd cymdeithasol) i helpu i gynyddu incwm teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru a'u cefnogi i adeiladu eu gwydnwch ariannol.

## 3) Asiantau a strwythurau cyflenwi

*Pa gyrff cenedlaethol, rhanbarthol a lleol y bydd angen eu rhoi ar waith? A oes ganddynt gapasiti? A yw'r cyflawni’n cyfateb i’r cymhellion? Pa adnoddau a chymorth y gallai fod eu hangen arnynt?*

Mae ein hadolygiad o strategaethau gwrthdlodi effeithiol yn pwysleisio'r angen am gydlynu gweithredwyr yn effeithiol ar sawl lefel: o Weinidogion hyd at ddarparu gwasanaethau 'rheng flaen' (Kenway et al., 2022) ac ar draws gwahanol adrannau a meysydd polisi y llywodraeth. Mae hyn yn gofyn am ysgogi 'peirianwaith llywodraeth' ffurfiol ac anffurfiol.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am weld camau cydlynol gan restr hir o bartneriaid gan gynnwys adrannau'r Llywodraeth yn ogystal ag ar draws llywodraeth leol, byrddau iechyd, cymdeithasau tai, ysgolion a cholegau, y Trydydd Sector, canolfannau gwaith, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), archfarchnadoedd, darparwyr gofal plant, a mwy. Mae angen meddwl yn ofalus, felly, i ddiffinio'r camau y mae angen eu cymryd, gan bwy, a'r rôl/rolau a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru wrth ddarbwyllo, cefnogi, galluogi a herio'r partneriaid dan sylw, gan gynnal y momentwm dros y tymor hwy, yn ogystal â'r capasiti y bydd ei angen arni i wneud hynny.

Bydd angen canolbwyntio’n benodol ar gyfrifoldebau ac atebolrwydd cyrff rhanbarthol sy'n gorgyffwrdd: Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Bargeinion Dinesig a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (ymhlith eraill) i gyd yn debygol o fod â rôl i'w chwarae wrth gyflawni agenda wrthdlodi Llywodraeth Cymru.

## Ffigur 1: Rhyng-gysylltiadau rhwng tlodi ac allgáu cymdeithasol - meysydd polisi cysylltiedig



Os yw cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau diffiniedig yn gofyn am gydweithio a chydweithredu effeithiol ar draws y rhain a'r rhai a grybwyllir uchod, bydd rhaid i Lywodraeth Cymru neilltuo adnoddau a chapasiti i gefnogi a herio'r cyrff hyn i weithredu'n unol â hynny.

## 4) Monitro

*Sut bydd cynnydd ar draws materion trawsbynciol amrywiol yn cael ei fonitro? Sut caiff 'llwyddiant' unrhyw strategaeth ei fesur? Sut bydd effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau yn cael ei bennu? A oes gallu ac eglurder cyfrifoldeb angenrheidiol ar lefel genedlaethol i fonitro cynnydd a dal partneriaid i gyfrif?*

Mae mynd i'r afael â materion cymhleth a deinamig fel tlodi ac allgáu cymdeithasol yn cymryd amser. Fel y mae'r adolygiad o strategaethau gwrthdlodi (Kenway et al., 2022) yn tynnu sylw ato, mae llawer o wledydd yn defnyddio cyfuniad o fesurau canlyniadau *ac* allbwn i fonitro cynnydd. Mae rheidrwydd gwleidyddol pwysig i weithredu'n gynnar wrth fynd i'r afael â thlodi: felly, mae allbynnu'n 'bwysig' ar hyd y 'daith' i gyflawni canlyniadau a dangos newid gwirioneddol i'r rhai sy'n byw mewn tlodi.

Fodd bynnag, mae'r adolygiadau o bolisïau a rhaglenni gwrthdlodi yn dangos bod tystiolaeth o ansawdd gwael o'r 'hyn sy'n gweithio' mewn sawl maes polisi (Bucelli a McKnight, 2022a-m). Ceir bylchau yn y dystiolaeth a thuedd i lunio gwerthusiadau gwan o raglenni, yn enwedig mewn perthynas ag ymyriadau lleol. Mewn achosion o'r fath, mae'n arbennig o bwysig bod gwerthusiadau yn *mynd y tu hwnt i* asesu allbynnau (e.e., nifer yr atgyfeiriadau, llwyth achosion ac ati) ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar yr effaith ar dlodi ac allgáu cymdeithasol.

Byddai angen i hyn gynnwys dadansoddiad o sut yr effeithiwyd ar wahanol grwpiau difreintiedig (e.e., pobl ag anableddau, pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, rhieni sengl, pobl sy'n gadael gofal). Byddai angen ystyried goblygiadau cost (amser, cyllid, cyfle) cynnwys dadansoddiad o'r fath ym mhob gwerthusiad, yn erbyn canolbwyntio ar werthusiadau o raglenni sydd wedi'u targedu'n benodol at wahanol grwpiau difreintiedig.

Wrth ystyried yr effaith, bydd angen cymysgedd o ffynonellau data. Mae ymchwil ynglŷn â gwasanaethau ieuenctid yn arbennig yn pwysleisio bod gan dystiolaeth ansoddol rôl bwysig i'w chwarae wrth fonitro effaith. Gall mesurau meintiol yn y cyd-destun hwn anwybyddu canlyniadau cadarnhaol ac arwain at ddiwygio niweidiol os yw gwasanaethau'n cael eu gorfodi i ddangos effaith yn y modd hwn (Bucelli a McKnight, 2022m). Dylai strategaeth Llywodraeth Cymru ystyried sut gallai dulliau casglu data a chysylltiadau data presennol gefnogi'r gwaith o werthuso ymyriadau penodol.

O ran Cymru, ystyriaeth arall wrth fonitro effeithiau unrhyw strategaeth fydd cyfyngiadau'r setliad datganoli presennol — a chyda hyn, y risg gysylltiedig y bydd effaith unrhyw gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn cael ei llyncu gan benderfyniadau ar lefel Llywodraeth y Deyrnas Unedig, neu gan rymoedd eraill y tu hwnt i reolaeth y naill Lywodraeth neu'r llall ac felly'n amhosibl ei dirnad. Fel y mae'r adolygiad o strategaethau gwrthdlodi yn ei amlygu, mae gwledydd eraill wedi ceisio goresgyn yr her hon trwy fodelu'r hyn a fyddai wedi digwydd pe na byddai unrhyw gamau'n cael eu cymryd - gan ddarparu llinell sylfaen 'wrthffeithiol' y gellir monitro effeithiau eu strategaeth yn ei herbyn (Kenway et al., 2022).

## 5) Cyfranogiad

### *Sut bydd y strategaeth yn ymgorffori cyfranogiad parhaus ac ystyrlon y bobl y mae'n ceisio eu cefnogi?*

Mae'r adolygiad o strategaethau yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw strategaeth yn 'canolbwyntio ar yr unigolyn' a bod y rhai sydd â phrofiad bywyd, a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau iddynt, yn cael eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon wrth ei datblygu a'i chyflawni.

Yn yr un modd, mae'r adolygiadau o raglenni ac ymyriadau ar draws meysydd polisi lluosog yn amlygu pwysigrwydd dylunio a chydlynu gwasanaethau o amgylch *pobl.* Mae gwasanaethau amlasiantaethol 'siop un stop' yn y gymuned, sy'n darparu cymorth amrywiol, yn ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â'r amrywiaeth o anghenion a ffactorau risg cydgysylltiedig y gall pobl eu profi (Bucelli a McKnight, 2022a). Dengys tystiolaeth fod y rhain ar eu mwyaf effeithiol pan na fyddant yn creu stigma a phan fyddant yn ysgogi cydberthnasau dibynadwy yn y gymuned sy'n helpu i ehangu eu cyrhaeddiad. Maen nhw hefyd yn creu'r posibilrwydd o gasglu dealltwriaeth o brofiadau bywyd hawlwyr a defnyddwyr er mwyn deall y rhwystrau i fynediad a wynebir gan grwpiau gwahanol (ac felly'r amrywiaeth o opsiynau a dewisiadau amgen sydd eu hangen i sicrhau cynhwysiant). Maen nhw'n ffynhonnell barhaus bwysig o wybodaeth leol.

Mewn rhai meysydd polisi, fel allgáu digidol, gwasanaethau ieuenctid ac amgylchedd y gymdogaeth, mae dulliau cyfranogol o ddylunio gwasanaethau yn dod i'r amlwg fel ffordd bwysig o wella llwyddiant ymyriadau; ar yr un pryd â gweithredu fel ymyriad ynddynt eu hunain, drwy'r effeithiau ar y rhai sy'n cymryd rhan (Bucelli a McKnight, 2022c; 2022j).

Mae'n rhaid i gyfranogiad fod yn foesegol, yn ddilys ac yn ystyrlon er mwyn manteisio ar y buddion yn briodol a lliniaru yn erbyn risg unrhyw niwed i gyfranogwyr. Byddai hyn yn cynnwys hysbysu a chael caniatâd y rhai sy'n gysylltiedig yn llawn ac yn briodol, proses gyfranogol barchus a chynhwysol, meddwl am ddisgwyliadau cyfranogwyr a manteision cyfranogiad o'r fath iddynt, yn ogystal â rhoi adborth a bod yn glir ynghylch unrhyw baramedrau ar gyfer newid.

O ystyried yr ansicrwydd ynghylch tueddiadau'r dyfodol oherwydd effeithiau parhaus pandemig y Coronafeirws a digwyddiadau allanol eraill, dylid meddwl am sut i ymgorffori dealltwriaeth a gafwyd o brofiad bywyd (h.y., sut mae pobl sy'n byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru yn profi ac yn mynegi'r sefyllfa bresennol fel y maen nhw a phobl maen nhw'n eu hadnabod yn ei byw) yn y prosesau ar gyfer llywio a monitro'r ffordd y mae strategaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei chyflawni ymhellach.

# 'Fframwaith blaenoriaethu'

Roedd yr adran flaenorol yn dadlau o blaid 'blaenoriaethu', gan ddarparu fframwaith cydlynol i gefnogi'r gwaith o drefnu, rheoli a goruchwylio strategaeth sy'n ceisio gweithredu ar draws meysydd lluosog. Yn yr adran hon rydym yn amlinellu un dull 'blaenoriaethu' posibl, gan ddangos sut y gall hyn gefnogi datblygiad strategaeth sy'n fwy na rhestr o ymyriadau polisi. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, penderfyniad gwleidyddol yw mynegi blaenoriaethau yn y pen draw.

Yn seiliedig ar ymrwymiadau presennol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021a; 2021b), a'r dystiolaeth a adolygwyd trwy ein gwaith, awgrymwn y gallai'r Llywodraeth gydlynu ei hymdrechion o amgylch y pedair blaenoriaeth neu faes ffocws canlynol:

1. **Lleihau costau a mwyafu incwm** – Ffyrdd effeithiol o fwyafu'r incwm sydd ar gael gan unigolyn neu aelwyd fel bod anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu'n gyson, ac nad oes rhaid i oedolion a phlant frwydro dro ar ôl tro i 'gael deupen llinyn ynghyd'.
2. **'Llwybrau' allan o dlodi** – Cymorth ar sail tystiolaeth i helpu pobl i fynd i'r afael ag ysgogwyr tlodi yn y tymor hir, er enghraifft trwy fynediad at waith (o ansawdd uwch / sy'n talu'n well), gofal plant hyblyg a fforddiadwy, a chyfranogiad economaidd-gymdeithasol ehangach.
3. **Amgylchedd galluogi** – Mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig ag amgylchedd neu gymdogaeth uniongyrchol pobl (e.e., diffyg tai o safon, seilwaith digonol, gwasanaethau priodol, a mannau gwyrdd) sy'n effeithio ar ansawdd eu bywyd a'u cyfranogiad economaidd-gymdeithasol a dinesig.
4. **Llwyth meddwl ac iechyd meddwl** – Mynd i'r afael â'r baich emosiynol a seicolegol a ysgwyddir gan bobl sy'n byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol trwy fynd i'r afael â stigma ac (ail)ddynoli'r 'system'. Trin pobl â'r parch a'r urddas y maent yn eu haeddu.

Mae gan y pedwar maes ffocws hyn sylfaen gref ym mhrofiadau'r rhai sy'n byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru (Carter, 2022b; Roberts, 2022). Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth hon yn dangos bod y rhai sydd â phrofiad bywyd o dlodi yn aml yn pwysleisio ysgogwyr strwythurol tlodi ac allgáu cymdeithasol (fel incwm isel, gwaith ansicr ac o ansawdd gwael, cynnydd mewn costau byw, nawdd cymdeithasol sy'n newid neu'n annigonol) sy'n arwain at ffurfiau ariannol ac anariannol ehangach o allgáu cymdeithasol. Mae'r rhai sydd â phrofiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol yn pwysleisio'r elfennau emosiynol a seicolegol hefyd - er enghraifft, cywilydd, stigma a balchder - sy'n cyflwyno rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau a chymorth y mae mawr eu hangen (Carter, 2022b). Nid oedd llwyth meddwl ac iechyd meddwl yn faes ffocws ar gyfer yr adolygiad o ymyriadau, ond oherwydd y daeth i'r amlwg yn gryf ac yn ddiysgog fel mater pwysig yn y gweithdai profiad bywyd, daeth yn bedwerydd 'maes ffocws' ar gyfer yr adroddiad hwn.

4 Mae Sefydliad Bevan (2020a) yn cyfeirio at 'anghenion sylfaenol' fel lloches, bwyd a chynhesrwydd digonol, a phethau a gweithgareddau y mae llawer ohonom yn eu cymryd yn ganiataol. Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn cyfeirio at 'anghenion lleiaf' yn ei ddiffiniad o dlodi, sy'n cynnwys nwyddau a gwasanaethau sylfaenol ochr yn ochr â chyfranogiad cymdeithasol.

Yn y tablau isod, rydym yn amlinellu'n gryno y rhesymeg a'r 'cymysgedd polisi' sy'n gysylltiedig â phob maes ffocws a, lle bo'n bosibl, rydym yn rhestru'r 'camau gweithredu addawol' sy'n deillio o ddadansoddi'r llenyddiaeth ryngwladol. Yna, rydym yn myfyrio ar draws y pedwar maes ffocws ar yr 'ystyriaethau pwysig', sef rhoi gweithredwyr a strwythurau ar waith, monitro, a chyfranogiad pobl sydd â phrofiad bywyd mewn perthynas â'r 'fframwaith blaenoriaethu' penodol hwn.



## Lleihau costau a chynyddu incwm

Pan fydd incwm y cartref yn gyfyngedig, mae bwyd, tanwydd, tai, taliadau dyledion ac, yn wir, unrhyw beth sydd â 'phris' ynghlwm wrtho, i gyd yn 'cystadlu' â'i gilydd ac yn rhoi straen sylweddol ar adnoddau ariannol, gan effeithio'n negyddol ar 'lwyth meddwl' ac iechyd meddwl. Mae'n hanfodol lleihau costau'r cartref a chynyddu a sefydlogi'r incwm sydd ar gael iddo.

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Tlodi tanwydd**  | Mae tlodi tanwydd a diffyg diogeledd bwyd yn aml yn cydfodoli. Mae cartrefi yn wynebu cyfyng-gyngor 'bwyta neu wresogi' (Bucelli a McKnight, 2022f; Carter, 2022b; Roberts, 2022). | **Mae gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref,** yn enwedig yn y stoc tai rhent presennol, lle mae cyfraddau tlodi tanwydd ar eu huchaf, yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â risgiau hirdymor tlodi tanwydd. Mae opsiynau ar gael i oresgyn y broblem o ran cymhelliad hollt (e.e. drwy grantiau a modelau ariannu talu-wrth-arbed).<br><br>Mae gwelliannau **effeithlonrwydd ynni** a ariennir drwy drethiant cyffredinol yn llai tebygol o arwain at gostau ynni uwch sy'n cael effaith negyddol ar aelwydydd incwm isel. Fodd bynnag, mae cynlluniau ariannu talu-wrth-arbed, megis y rhai a ddarperir gan Gwmnïau Cyflenwi Ynni (ESCOs), yn cynnig dull addawol a all sicrhau cyllid pwysig ochr yn ochr â chyflawni gwelliannau arbed ynni (gan gynnwys ôl-osod).<br><br>Gall **archwiliadau ynni** helpu i ennyn newidiadau ymddygiadol cadarnhaol mewn perthynas â'r defnydd o ynni. Gall helpu aelwydydd i ddefnyddio ynni a dyfeisiau arbed ynni yn effeithlon helpu i ostwng biliau ynni.<br><br>Un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno tlodi tanwydd yw incwm isel, ac mae angen i unrhyw strategaeth i leihau tlodi tanwydd fynd i'r afael â'r sbardun hwn. Gall **cymorth ariannol** targededig fod ar ffurf taliadau nawdd cymdeithasol 'wedi'u labelu' neu gymorth gyda biliau ynni. Mae angen mwy o dystiolaeth werthuso i asesu pa un yw'r mwyaf effeithiol o ran lleihau tlodi tanwydd. |

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Diffyg diogeledd bwyd**<br> | Mae tlodi tanwydd a diffyg diogeledd bwyd yn aml yn cydfodoli. Mae cartrefi yn wynebu cyfyng-gyngor 'bwyta neu wresogi' (Bucelli a McKnight, 2022f; Carter, 2022b; Roberts, 2022). | **Dylai cymorth ar gyfer banciau bwyd ac ymyriadau yn y gymuned (e.e.pantrïau cymunedol, caffis cymunedol, ac ati) gydnabod eu cyfyngiadau** o ran cyrhaeddiad, effaith ar raddfa eang a'r gallu i fynd i'r afael â'r hyn sy'n sbarduno diffyg diogeledd bwyd. Mae angen ymyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn i sicrhau bod gan aelwydydd y modd ariannol i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol.<br>• Dylai atebion lleol **hyrwyddo cydgysylltiad rhwng gwasanaethau a darparu cymorth amrywiol** (e.e., mewn perthynas â thai, iechyd meddwl, dileu dyled).<br>• Yr heriau allweddol i fynd i'r afael â nhw yw darpariaeth anghyson, diffyg cynaliadwyedd, amseroedd gweithredu cyfyngedig, stigma, meini prawf cymhwysedd cyfyngol, a dewis ac argaeledd cyfyngedig o ran bwyd.<br>Dylid ystyried **ehangu prydau ysgol am ddim** yng ngoleuni tystiolaeth bod darpariaeth gyffredinol yn lleihau stigma ac yn cynyddu nifer y rhai sy'n manteisio ar y ddarpariaeth. Mae meini prawf cymhwyso cyfyngol yn tanseilio eu rôl o ran gwella cymhellion i weithio ac adnoddau cyffredinol aelwydydd. Gellir gwerthuso amrywiaeth o gamau gweithredu o ran eu dichonoldeb, gan gynnwys:<br>• **Diwygio meini prawf cymhwysedd** sy'n eithrio nifer fawr o aelwydydd agored i niwed ar hyn o bryd (e.e., cynnal estyniadau a fabwysiadwyd yn ystod argyfwng y coronafeirws).<br>• **Mabwysiadu prydau ysgol am ddim i bawb,** ar gyfer grŵp oedran cyfyngedig, fel yn Lloegr a'r Alban, neu ar gyfer pob plentyn oedran ysgol. Gellid hefyd asesu **datrysiadau ategol seiliedig ar ardal**. |

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Tai fforddiadwy** | Mae'r system dai yn ffurfio fforddiadwyedd (Bucelli a McKnight, 2022b). Mae ôl-ddyledion y dreth gyngor yn chwarae rhan allweddol fel un o achosion **dyled aelwydydd**. Mae didyniadau credyd ar gyfer rhent heb ei dalu yn rhoi straen pellach ar aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd. | Dylid rhoi blaenoriaeth i hybu darpariaeth tai cymdeithasol sy'n wirioneddol fforddiadwy, sicr ac o ansawdd uchel.<br>• Mae prinder tai cymdeithasol yn arwain at fathau o ddogni, yn cynyddu'r gystadleuaeth am gartrefi ac yn cynyddu costau yn y sector preifat.<br>• Gall atebion tymor byr sy'n canolbwyntio ar gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol arwain at newid systemig tymor hir – gan greu'r amodau sy'n angenrheidiol i'r system gynyddu 'fforddiadwyedd ehangach'.<br>◦ Ceir tystiolaeth bod systemau sy'n hyrwyddo fforddiadwyedd ehangach ar draws y system dai yn lleihau costau ac ansefydlogrwydd, yn cynyddu safonau ansawdd ac yn lleihau gwahanu.<br>Gall hyrwyddo rheoleiddio, safonau ansawdd a diogelu tenantiaid yn y sector rhentu preifat hyrwyddo mwy o fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat a chyfrannu at system fforddiadwyedd ehangach. |

> **"Mae'n rhaid i chi ddewis pa un, wyddoch chi, beth fydda i'n ei dalu i chi? A ddylwn i dalu am y nwy a'r trydan? A ddylwn i fynd i fwy o ddyled er mwyn i ni allu bwyta?"**
> (Roberts, 2022, tud.9)

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Dyled aelwydydd**<br> | Gall costau byw y tu allan i allu ariannol cartref arwain at berthynas gyd-atgyfnerthol rhwng tlodi a dyled (Bucelli a McKnight, 2022h; Carter, 2022b). | Dylai **dull sy'n mynd i'r afael ag achosion dyled aelwydydd** gael ei seilio ar ddealltwriaeth o'r berthynas gyd-atgyfnerthol rhwng tlodi a dyled.<br>• Dylid ystyried strategaethau i gynyddu incwm gwario a lleihau gwariant (e.e. cost gofal plant, bwyd, tanwydd, trafnidiaeth, tai) er mwyn **cynyddu adnoddau aelwydydd**.<br>• Mae **diwygio'r dreth gyngor** yn arbennig o bwysig yng ngoleuni nodweddion atchweliadol y system gyfredol a'r rhan allweddol y mae ôl-ddyledion o'r math hwn yn ei chwarae fel un o achosion dyled.<br>• Er ei fod y tu hwnt i gylch gwaith pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, mae achos cryf dros alw am **newidiadau i gynllun Credyd Cynhwysol a'i system o ôl-daliadau ac ad-dalu blaendaliadau.**<br>**Mae mesurau lliniaru ac adsefydlu** yn bwysig er mwyn rhoi dechrau newydd a lliniaru effeithiau negyddol dyled ar iechyd a lles.<br>• **Gall mwy o gydgysylltu rhwng gwasanaethau cyngor ar ddyledion ac asiantaethau a gwasanaethau eraill** helpu i nodi aelwydydd sydd mewn perygl o ddyledusrwydd a hwyluso ymyrraeth gynnar. Gall gwasanaethau cyngor ar ddyledion hefyd fod yn bwynt cyswllt a sbarduno amrywiaeth o atgyfeiriadau at wasanaethau priodol. Dylid gwerthuso cyfleoedd rhannu data.<br>• **Gall gwell cysylltiadau rhwng gwasanaethau cyngor ar ddyledion a dileu dyled** fynd i'r afael â diffyg ymwybyddiaeth o ddulliau datrys dyledion. Gall hyn gryfhau diogelwch defnyddwyr ac atal dyledwyr rhag gwneud trefniadau anaddas. |

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod** | Gall taliadau nawdd cymdeithasol amrywio. Mae profiadau bywyd o dlodi yn olrhain materion yn ôl i newidiadau i fudd-daliadau yn y gorffennol (Beck, 2018, a ddyfynnwyd yn Carter 2022b; Roberts, 2022). | Mae awtomeiddio yn effeithiol o ran gwella'r defnydd, a gall leihau'r tebygrwydd o broses dameidiog, gan sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu. Gall hwyluso'r broses o hawlio fynd i'r afael â rhwystrau pwysig i'r defnydd, megis anegni, diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth ac, o bosibl, stigma. Dylai'r blaenoriaethau gynnwys y canlynol:<br>• Archwilio trefniadau rhannu data presennol a gwerthuso synergeddau posibl er mwyn nodi cyfleoedd i awtomeiddio.<br>◦ Gellir dysgu gwersi defnyddiol o fenter yr Alban i gysylltu nifer o grantiau datganoledig â chofnodion Budd-dal Tai neu Ostyngiadau'r Dreth Gyngor.<br>• Rhaid cynnig llwybrau hawlio amgen er mwyn unioni gwallau gweinyddol posibl a lleihau cyfraddau allgáu.<br>◦ Dylid cynnal asesiad o p'un a yw systemau awtomataidd yn cynyddu 'symlrwydd', gan na ellir cymryd hyn yn ganiataol. Mae tystiolaeth yn amlygu nad yw symlrwydd gweinyddol yn aml yn golygu symlrwydd i'r sawl sy'n hawlio. Gall tystiolaeth o brofiad ymarferol hawlwyr a gweinyddwyr gynnig dealltwriaeth.<br>Gall mentrau lleol ymgorffori ystod o ymyriadau, o ddarparu gwybodaeth i gyngor a chymorth wrth hawlio. Mae partneriaethau â mudiadau cymdeithas sifil yn ysgogi cydberthnasau sefydledig o ymddiriedaeth, a all fod yn hanfodol i gyrraedd a chynorthwyo'r hawlwyr mwyaf agored i niwed a rhoi cyfrif am agweddau a normau sy'n gysylltiedig â stigma (gweler Astudiaeth Achos 2). Fodd bynnag, nid oes gan y mathau hyn o raglenni brosesau gwerthuso cadarn yn aml. |

## 'Llwybrau' allan o dlodi

Mae'n rhaid i unrhyw strategaeth wrthdlodi anelu at dynnu pobl allan o dlodi ac allgáu cymdeithasol yn y tymor hir. Mae hyn yn golygu mynd i'r afael ag ysgogwyr allweddol tlodi trwy gefnogi addysg a datblygu sgiliau o ansawdd da; helpu oedolion i gael gwaith; gwella dilyniant mewn gwaith; a mynd i'r afael â 'chostau' gwaith trwy ddarparu trafnidiaeth a gofal plant fforddiadwy a hyblyg.

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Addysg bellach a sgiliau** | Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol yn rhwystrau sylweddol i fynediad at addysg a chyrhaeddiad addysgol. Mae sgiliau a chymwysterau yn benderfynyddion allweddol o gyflogadwyedd ac incwm pobl (Carter 2022a; Bucelli a McKnight, 2022g.) | Gall sicrhau **mwy o barch cydradd rhwng addysg academaidd a galwedigaethol** gefnogi rôl Addysg Bellach o ran gwella cyfleoedd bywyd grwpiau difreintiedig. Fodd bynnag, mae angen newidiadau systemig, gan gynnwys:<br><br>**Ailgydbwyso adnoddau rhwng AB ac AU a rhwng astudiaeth lawn-amser a rhan-amser.**<br><br>• Mae angen i ddulliau ariannu gefnogi'r broses o gaffael cymwysterau ar lefel uwch (e.e. lefelau 4 a 5), gan fynd ati ar yr un pryd i gynnal hyblygrwydd ac opsiynau a all ddarparu gwell cymorth i ddysgwyr difreintiedig.<br><br>Gall cysylltiadau o fewn AB (e.e. rhwng gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol), a rhwng AU ac AB, bontio'r bwlch rhwng sectorau.<br><br>• **Gall system integredig gyflwyno'r didwylledd a'r athreithedd sydd eu hangen i gynnwys mwy o** grwpiau difreintiedig. Gall prosesau syml a gwasanaethau cyngor a chymorth digonol helpu dysgwyr sy'n defnyddio'r system ymhellach.<br><br>Mae llwybrau cymwysterau sy'n galluogi datblygu **cymwyseddau galwedigaethol eang** yn gwella trosglwyddedd sgiliau, a gallant helpu i wneud addysg alwedigaethol yn berthnasol i ystod o feysydd gyrfäol.<br><br>Gellir gwella cynwysoldeb rhaglenni a phrentisiaethau ôl-16 drwy ddiwygio **gofynion mynediad** (e.e. sy'n gysylltiedig â graddau penodol yng nghyfnod allweddol 4), gan fod perygl y gallai'r system gyfredol eithrio'r rhai sy'n fwy tebygol o elwa.<br><br>Mae **dulliau sicrhau ansawdd** yn hanfodol er mwyn ymateb i bryderon cyflogwyr a dysgwyr ynglŷn â pherthnasedd, ansawdd a natur drosglwyddadwy cymwysterau galwedigaethol, sy'n dylanwadu ar gyfranogiad defnyddwyr ac ymgysylltiad cyflogwyr. |

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Camu ymlaen yn y gwaith**<br> | Gall diffyg dilyniant gynnal tlodi mewn gwaith. Fodd bynnag, gall cynyddu oriau gwaith â thâl ar lefel aelwyda/neu haelioni buddion mewn gwaith fod yr un mor bwysig neu'n bwysicach na chamu ymlaen yn y gwaith. | Yn achos pobl ddi-waith, mae gan **fathau 'galluogol' o ysgogi** , megis hyfforddiant, fwy o botensial i arwain at gamu ymlaen na mathau 'awdurdodol' (h.y. sy'n canolbwyntio ar y defnydd o alwadau ysgogi ar gyfranogwyr), megis monitro a sancsiynau.<br>• **Dengys tystiolaeth werthuso** , sy'n edrych ar gyfnod hwy, fod rhaglenni hyfforddi ar gyfer pobl ddi-waith yn tueddu i berfformio'n well na mathau awdurdodol o ysgogi. Fodd bynnag, mae hyfforddiant o ansawdd da yn fwy costus yn y byrdymor, ac mae angen i lunwyr polisïau nodi pa gyrsiau i'w cynnig neu eu cefnogi.<br>Mae mentrau datblygu gweithlu sector-benodol sy'n defnyddio dull dau gwsmer (gweithio gyda chyflogwyr yn ogystal â gweithwyr) yn amlygu effeithiau hirdymor cadarnhaol ar enillion a buddion net i gyfranogwyr, llywodraethau a chymdeithas yn ehangach.<br>Mae'r **sylfaen dystiolaeth gyfredol yn dibynnu ar astudiaethau ar raddfa fach o'r Unol Daleithiau.** Mae angen deall mwy ynghylch pa raglenni sy'n gweithio a pham. Mae'r mentrau hyn hefyd yn dibynnu ar gyfryngwyr cyflogaeth profiadol, ac mae angen rhoi ystyriaeth briodol i'w trosglwyddedd i Gymru.<br>• Bydd amodoldeb mewn gwaith ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol sy'n ennill cyflog isel yn cynyddu ffocws polisi ledled y DU ar gamu ymlaen mewn gwaith. |

> **"Dydych chi ddim wedi ei wynebu** [byw mewn tlodi] **bob dydd, bob blwyddyn, ac yna rydych chi'n cyrraedd eich tridegau a dydych chi ddim yn well eich byd ers pan oeddech chi'n gwylio eich rhieni'n gwneud yr un peth."**
> (Roberts, 2022, tud.19)

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Addysg a gofal plant plentyndod cynnar** | Mae diffyg mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel yn effeithio ar y gallu i weithio (neu weithio mwy o oriau) ac yn rhwystro camu ymlaen yn y gwaith (Bucelli a McKnight, 2022d). Mae tystiolaeth profiad bywyd yn awgrymu diffyg cyfatebiaeth rhwng darpariaeth gofal plant ac anghenion gofal plant (Roberts, 2022). | Gan fod y rhai sy'n well eu byd yn defnyddio ac yn elwa ar wasanaethau addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar mewn modd anghymesur – gan gyfyngu ar effaith addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar ar dlodi ac allgáu cymdeithasol – dylai blaenoriaethau ganolbwyntio ar y canlynol:<br>• Diwygio'r cynnig presennol o 30 awr yr wythnos yng ngoleuni elfennau a nodwyd yn y dystiolaeth ryngwladol yn rhai sy'n fwy tebygol o gynyddu cyfranogiad mewn addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar ymhlith teuluoedd difreintiedig. Dylid hefyd ystyried ehangu a chynnwys **lleoedd gwarantedig, cymorth i rieni sy'n gweithio a rhieni nad ydynt yn gweithio, a ffioedd sy'n cael eu graddio ar incwm a nifer y plant**.<br>• Dylid asesu **effaith ddosbarthiadol diwygiadau diweddar**, ac amlygu difuddiant posibl.<br>• Mae ansawdd y ddarpariaeth a'r hawl estynedig yn rhoi pwysau ar ddarparwyr, sy'n dibynnu ar oriau a ffioedd ychwanegol gan blant iau i dalu costau. Gall hyn waethygu gwahaniaethau o ran mynediad. Gellid ystyried **ehangu allgymorth y cynllun Dechrau'n Deg neu ddiwygio ei ffocws daearyddol**.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau pwysig i greu dull cyfannol mewn perthynas ag addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar, gan gydnabod pwysigrwydd integreiddio addysg a gofal yn fwy, a fframwaith ansawdd unedig. Mae cynlluniau i wella sgiliau a safonau'r gweithlu addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yn mynd rhagddynt. Gellir cefnogi'r ymdrechion hyn drwy:<br>• **Safonau cymwysterau unedig** a llwybrau i gydnabod profiad gwaith a chymwyseddau a gaffaelwyd yn flaenorol.<br>• **Trin y sector a gynhelir ac nas cynhelir mewn ffordd unedig.**<br>• **Sicrhau bod safonau uwch yn cydredeg â statws uwch** – o ran cyflog, amodau gwaith a chydnabyddiaeth broffesiynol.<br>• **Cynnwys llwybrau wedi'u haddasu ar gyfer cynorthwywyr**, sy'n cynrychioli cyfran fawr o'r gweithlu ond sydd â llai o bosibiliadau o ran ennill cymwysterau a chamu ymlaen nag ymarferwyr craidd.<br>• **Casglu a dadansoddi data am y gweithlu** (e.e. cefndir economaidd-gymdeithasol), gan gynnwys cynorthwywyr, er mwyn hwyluso'r broses o amlygu rhwystrau i ddatblygiad proffesiynol a darparu sail ar gyfer dyfeisio atebion. |

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Anfantais o ran trafnidiaeth** | Mae diffyg mynediad neu fynediad gwael i drafnidiaeth yn cynyddu risg tlodi ac allgáu cymdeithasol trwy gyfyngu ar fynediad at gyfleoedd gwaith, camu ymlaen yn y gwaith a mynediad at addysg bellach a sgiliau, hyfforddiant, a darpariaeth gofal plant | Mae cynyddu **darpariaeth trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw yn cynnig mwy o hyblygrwydd na llwybrau/ amserlenni sefydlog.** Fodd bynnag, gall allgáu digidol olygu na all pawb fanteisio ar y math hwn o ddarpariaeth.<br><br>Gall defnyddio **cerbydau gwyrdd,** boed ar gyfer trafnidiaeth gymunedol, trafnidiaeth a rennir neu, yn fwy cyffredinol, ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, helpu i leihau allyriadau carbon.<br><br>Gall **systemau trafnidiaeth cyflawn** helpu i fynd i'r afael â systemau tameidiog, a gwella'r broses o integreiddio trafnidiaeth gymunedol, trafnidiaeth a rennir, a gwasanaethau trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw.<br><br>Gallai canolbwyntio ar amcangyfrif **gwerth cymdeithasol trafnidiaeth gymunedol**, yn hytrach nag ar asesiadau meintiol mwy cul (e.e. nifer y siwrneiau) gynyddu buddsoddiad yn unol ag effaith. |
| **Datgymhellion yn y system** | Mae profiad bywyd yn dangos sut mae'r ffactorau uchod yn rhyngweithio i ddatgymell pobl rhag gweithio a'i gwneud yn anodd creu llwybr allan o dlodi (Roberts, 2022). Mae'n hanfodol bod y datgymhellion mewnol hyn yn cael eu dileu o'r system. | |



## Amgylchedd galluogi

Mae pobl sy'n byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol hefyd yn wynebu rhwystrau yn aml sy'n gysylltiedig â'u hamgylchedd uniongyrchol - er enghraifft, diffyg tai o ansawdd da, seilwaith digonol (trafnidiaeth, digidol), gwasanaethau priodol (e.e., ieuenctid) a mannau gwyrdd, yn ogystal â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau. Felly, mae angen i ymyriadau gwrthdlodi hefyd ystyried sut i feithrin amgylcheddau galluogi.

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Tai fforddiadwy** | Gweler y tabl "Lleihau costau a chynyddu incwm" uchod | |
| **Anfantais o ran trafnidiaeth** | Gweler y tabl "'Llwybrau' allan o dlodi" uchod | |
| **Allgáu digidol**<br> | Gall allgáu digidol gyfyngu ar addysg, sgiliau a chyfleoedd gwaith a mynediad at wasanaethau cysylltiedig (Carter, 2022a). | **Mynediad i ddyfeisiau a chysylltedd**<br>• Er bod fforddiadwyedd yn elfen allweddol mewn perthynas â mynediad, a bod defnydd digidol yn sensitif i bris, mae rhaglenni llwyddiannus yn gofyn am ddull cyfannol, ac mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael ag agweddau eraill sy'n gysylltiedig â chymhelliant, sgiliau a hyfforddiant.<br>• Mae gwahaniaethau o ran defnydd hefyd yn cael eu llywio gan y perthnasedd canfyddedig i anghenion defnyddwyr, na all hygyrchedd digidol yn unig eu newid.<br>**Gall rhaglenni llythrennedd digidol** leihau allgáu digidol. Fodd bynnag, mae yna ddiffyg tystiolaeth werthuso o ansawdd uchel i helpu i lywio 'yr hyn sy'n gweithio'. Mae angen mynd i'r afael â rhwystrau ysgogol ac mae rhaglenni llythrennedd yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus o'u cysylltu ag angen clir. |

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau ieuenctid**<br> | Gall gwasanaethau ieuenctid fod yn allweddol i ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol (Bucelli a McKnight, 2022m). | **Mae darpariaeth mynediad agored** yn hyrwyddo cynwysoldeb ac yn osgoi'r stigma sy'n aml yn deillio o dargedu gwasanaethau at y rhai mwyaf difreintiedig.<br>• Mae arbenigwyr wedi mynegi pryder am y **pwysau cynyddol i fesur** a dangos effaith feintiol darpariaeth gwaith ieuenctid mynediad agored, a all arwain at gamddehongli a diwygio niweidiol.<br>**Gall cyfranogiad ystyrlon ymhlith pobl ifanc** sy'n harneisio eu profiad ymarferol drwy eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau ieuenctid arwain at welliannau i wasanaethau a manteision i bobl ifanc. Mae cyfranogiad ystyrlon yn gofyn am ymgysylltu gweithredol a dylanwad gwirioneddol, yn hytrach na phresenoldeb goddefol neu rolau symbolaidd.<br>• Mae tystiolaeth o ansawdd da yn bodoli sy'n dangos bod cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau ieuenctid yn arwain at **sgiliau cymdeithasol gwell (effeithiolrwydd ac empathi),** a bod cyfleoedd i fod yn arweinydd neu i wneud penderfyniadau yn arwain at **fwy o deimladau o berchenogaeth ac ymrymuso a lefelau uwch o bresenoldeb**.<br>• Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi bod yn gyfrwng cadarnhaol ar gyfer newid, gan arwain at fwy o gyfranogiad gweithredol o du pobl ifanc mewn materion sy'n effeithio arnynt. |

**"roedd taith a gymerai hanner awr yn y car yn debycach i ddwy awr ar y bws ac roedd yr opsiwn cynharaf yn cyrraedd y ddinas bron i hanner awr yn hwyrach nag y mae llawer o gyflogwyr yn disgwyl i chi fod wrth eich gwaith – dydy hyn ddim yn helpu ardal o ddiweithdra uchel"**

(Boston, 2017, a ddyfynnwyd yn Carter, 2022b, tud.42)

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol | 'Camau gweithredu addawol' o dystiolaeth ryngwladol |
|---|---|---|
| **Amgylchedd y gymdogaeth** | Cyfyngiadau ymyriadau amgylchedd y gymdogaeth (sy'n deillio o greu swyddi, hwb i'r economi leol, gwell cyfranogiad cymunedol ac amgylcheddau ffisegol) a buddion i'r rhai sy'n byw mewn tlodi (Bucelli a McKnight, 2022j). | **Mae angen amcanion clir mewn perthynas â lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol** er mwyn i'r budd sy'n deillio o ymyriadau yn amgylchedd cymdogaeth (o ganlyniad i greu swyddi, hybu'r economi leol, gwell cyfranogiad cymunedol a gwell amgylcheddau ffisegol) gyrraedd y rhai mwyaf difreintiedig.<br>• Dylai'r amcanion hyn osgoi ymdrechion adfywio sy'n golygu bod allgáu cymdeithasol, y broses o ddadleoli'r dinasyddion a'r aelwydydd mwyaf difreintiedig, a boneddigeiddio yn gwaethygu fwyfwy.<br>• Mae dulliau 'seiliedig ar weithgareddau' sy'n ceisio adfywio canol trefi drwy greu amgylcheddau cymysg yn addawol, ond nid ydynt yn cael eu gwerthuso'n gadarn ar hyn o bryd.<br>• Dylid cynllunio gwaith **gwerthuso** ochr yn ochr ag ymyriadau, a ddylai gynnwys amserlenni realistig (e.e. sy'n gwahaniaethu rhwng canlyniadau byrdymor a hirdymor), a chanolbwyntio nid yn unig ar brosesau ac allbynnau, ond hefyd ar **asesu canlyniadau ac effeithiau dosbarthiadol ar dlodi, ac amcangyfrif 'gwerth cymdeithasol'**.<br>**Gall dulliau a arweinir gan y gymuned** liniaru risgiau boneddigeiddio drwy roi anghenion a phrofiadau'r gymuned leol wrth wraidd gwaith datblygu, **ar yr amod eu bod yn llwyddo i sicrhau ymgysylltiad effeithiol a chynhwysol.**<br>• Er mwyn sicrhau cynhwysiant gwirioneddol, mae angen ymgysylltu'n rhagweithiol â'r rhai mwyaf difreintiedig yn y gymuned a chanolbwyntio ar ddeall rhwystrau i ymgysylltu a mynd i'r afael â nhw. |



## Baich meddwl a llwyth meddwl

Mae byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol yn cael ôl-effeithiau sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant pobl, gan greu neu waethygu sbectrwm cyfan o anghenion emosiynol a seicolegol. Mae 'llwyth meddwl' sylweddol o straen a phryder yn cael ei greu trwy orfod rheoli costau byw pob dydd (Roberts, 2022) ac yna'n cael ei waethygu gan y stigma sy'n gysylltiedig â byw mewn tlodi a'r driniaeth annynol a brofir trwy'r system/gwasanaethau sydd yno i helpu.

| Meysydd polisi ('cymysgedd polisi') | Materion croestoriadol |
|---|---|
| **Gwasanaethau annynol**  | Mae profiad bywyd yn dangos yn gryf bod yr heriau, y pwysau a'r straen eang sydd ynghlwm wrth ddelio â **chymhlethdodau'r system nawdd cymdeithasol** — a'r ffordd y caiff budd-daliadau eu cyfathrebu, eu hawlio a'u gweinyddu — yn effeithio ar iechyd meddwl hawlwyr ac yn gallu gwneud iddynt deimlo'n 'annynol' (Carter, 2022b; Roberts, 2022). |
| **Stigma**  | Mae stigma yn elfen allweddol o dlodi sy'n gallu cael ei hanwybyddu'n aml ac mae'n arbennig o gyffredin mewn perthynas â **thaliadau nawdd cymdeithasol** a **diffyg diogeledd bwyd**, gan weithredu fel rhwystr allweddol rhag cael mynediad at wasanaethau a **manteisio** ar wasanaethau (Carter, 2022b; Roberts, 2022).<br><br>Dangoswyd bod tlodi'n lleihau mwynhad plant o **addysg** ac ymgysylltiad â'u cyfoedion (ap Gruffudd et al., 2017, a ddyfynnwyd yn Carter, 2022b). |

Nid oedd y maes hwn wedi'i gynnwys yn yr adolygiad o ymyriadau, a gellid gwneud rhagor o waith i ddod o hyd i ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â'r straen a'r stigma y mae'r system bresennol yn eu creu, yn enwedig o ystyried y diffyg data ar stigma ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru (Carter, 2022a). Trwy eu hadolygiad o ymyriadau i gefnogi cynyddu **nifer y bobl sy'n derbyn trosglwyddiadau arian parod**, canfu Bucelli a McKnight (2022k) dystiolaeth bod ymdrechion i awtomeiddio budd-daliadau wedi helpu i fynd i'r afael â rhwystrau mynediad sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a rhwystrau mynediad unigol, gan gynnwys stigma.

> **"Mae'n gylch dieflig oherwydd sut bynnag, byddwch chi bob amser yn poeni am un peth neu'r llall. Mae fy mab yn poeni'n ofnadwy – 'sut ydw i'n mynd i ymdopi, mam?'"**
> (Roberts, 2022, tud.16)

## Llywodraethu a chyflenwi

O gofio'r rhyng-gysylltiadau rhwng y gwahanol ffactorau a'r meysydd polisi sy'n gysylltiedig â'r pedwar maes ffocws hyn, dylai unrhyw strategaeth effeithiol gasglu ynghyd a chydlynu ymdrechion presennol a newydd i fynd i'r afael ag ysgogwyr economaidd a chymdeithasol niferus tlodi ac allgáu cymdeithasol sy'n effeithio ar unigolion a theuluoedd yng Nghymru.

Er enghraifft, mewn perthynas â lleihau costau aelwydydd a chynyddu incwm, gallai Llywodraeth Cymru adeiladu ar ymdrechion cydlynu diweddar i symleiddio mynediad at gymorth, cryfhau gwasanaethau cynghori a chodi ymwybyddiaeth o'r buddion sydd ar gael, trwy:

- Ymgorffori neu hyd yn oed fynnu'r arfer gorau a nodwyd yn y pecyn cymorth a ddatblygwyd i symleiddio prosesau ar gyfer gwneud cais am fudd-daliadau Awdurdodau Lleol (Llywodraeth Cymru, 2021k), gan gynnwys mynd i'r afael â'r camau nesaf a nodwyd.
- Archwilio'r potensial i adeiladu ar y broses hon drwy ei chysylltu ag 'asesiadau o angen' eraill, fel y nod o fynd ati'n rhagweithiol i adnabod y rhai sydd mewn perygl o dlodi tanwydd (Nod 1, Llywodraeth Cymru, 2021l), ac archwilio p’un a ellir cysylltu hyn â chymorth ar gyfer diffyg diogeledd bwyd (o ystyried y dystiolaeth ynglŷn â’r cysylltiadau rhwng y rhain).
- Ategu'r uchod gydag ymgyrch gyfathrebu gydlynol a buddsoddi mewn gwasanaethau cynghori, gan fyfyrio ar ymyriadau fel yr IMAP (Llywodraeth Cymru, 2020a) a dysgu ohonynt. Ac archwilio'r potensial ar gyfer 'un pwynt mynediad' ar gyfer hawlwyr er mwyn sicrhau bod y system yn cyrraedd pobl ac yn gwneud gwahaniaeth (Sefydliad Bevan, 2020c).

Yn yr un modd, o ran galluogi 'llwybrau allan o dlodi', mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o ymyriadau polisi sydd, mewn ffyrdd gwahanol, yn ceisio mynd i'r afael â goruchafiaeth swyddi â thâl isel a sgiliau isel yn y farchnad lafur yng Nghymru; o'r ymrwymiad i ddysgu gydol oes, i fuddsoddi mewn seilwaith, yr agenda gwaith teg, a'r pwyslais ar gyrhaeddiad addysgol plant o gartrefi incwm is. Yr hyn sy'n aneglur yw i ba raddau y mae cyflwyno a goruchwylio mentrau o'r fath yn gysylltiedig ac yn gydlynol; neu i ba raddau y maent wedi'u hanelu at gefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

Ac mae hyn yn allweddol — ni fydd casglu ymyriadau polisi ynghyd yn ddigonol. Mae angen alinio’r prosesau goruchwylio ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni; a, lle y bo'n briodol, wrth gyflawni ei hun. [5] Ac mae angen i Lywodraeth Cymru ddiffinio ei rôl o ran perswadio, cefnogi, galluogi a herio'r partneriaid sy’n gysylltiedig, a sicrhau bod digon o gapasiti wedi'i neilltuo ar gyfer hyn.

5 Gall mwy o gydlynu rhwng asiantaethau a rhaglenni lleol sy'n integreiddio gwasanaethau lluosog (e.e., rheoli ynni, gwasanaethau cynghori ar ddyledion neu gymorth gyda cheisiadau am fudd-daliadau) adlewyrchu'n well realiti rhyng-gysylltiedig profiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol a darparu cefnogaeth fwy cydgysylltiedig ar lefel cymuned neu gymdogaeth.

## Monitro ac ymchwil

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ymdrechion cydlynol, byddai angen fframwaith monitro effeithiol. Bydd gan fentrau sy'n bodoli eisoes drefniadau monitro cysylltiedig ar waith. Gallai'r rhain gael eu mapio a'u rhesymoli a/neu eu gwella er mwyn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gael dealltwriaeth dda o weithredu'r gwahanol ymyriadau. Dylid defnyddio data o'r fath fel sail ar gyfer sgyrsiau parhaus gyda phartneriaid am gyflawni. Mae’n debygol y byddai angen ymchwil i ddeall 'llwyddiant' y strategaeth, ac effeithiolrwydd cymharol gwahanol ymyriadau. Yn yr un modd, gellid cynnal gwaith ymchwil pellach ynglŷn â sut mae meysydd blaenoriaeth, a ffyrdd arfaethedig o wella sefyllfaoedd y rhai sy'n byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol, yn wahanol ar draws newidynnau daearyddol a demograffig a sefyllfaoedd byw. Ychydig iawn neu ddim data sy'n cael ei gasglu ar stigma ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru, a allai hefyd fod yn faes pwysig ar gyfer gwaith ymchwil pellach.

## Cyfranogiad

Gallai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried p’un a all gwybodaeth gan y rhai sydd â phrofiad bywyd uniongyrchol o dlodi ac allgáu cymdeithasol lywio sut mae gweithgareddau'n esblygu ac yn addasu dros amser, a sut gallai lywio hynny, fel bod y pecyn ymyriadau’n canolbwyntio ar anghenion yr unigolion a'r aelwydydd y mae'n ceisio eu cefnogi. Efallai y gall y data hwn ar brofiad bywyd gael ei ddarparu’n fwy bwriadol a systematig, er enghraifft drwy gydweithio ag asiantaethau rheng flaen sy'n ymwneud â Chynghrair Gwrthdlodi Cymru.

Byddai manteision cyfranogiad parhaus o'r fath yn cynnwys targedu gwasanaethau perthnasol mewn ffordd sy'n gwneud cymorth yn hygyrch iddynt ac yn osgoi labeli sy’n stigmateiddio (labeli nad yw llawer yn uniaethu â nhw), a dylunio polisïau sy'n cefnogi perthnasoedd cymdeithasol a chymunedol (Bucelli a McKnight, 2022f).

# Casgliad

Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol yn faterion pwysig yng Nghymru sydd wedi'u gwaethygu gan y Coronafeirws a nifer o ddigwyddiadau allanol eraill. Mae tystiolaeth yn dangos bod llwybr mwy heriol o'n blaenau. Gyda'i gilydd, mae tlodi ac allgáu cymdeithasol yn broblemau parhaus a chymhleth sy'n effeithio ar fywydau a lles pobl o ddydd i ddydd mewn sawl ffordd.

Mae terfynau a chyfyngiadau'n gysylltiedig â'r sylfaen dystiolaeth a luniwyd trwy'r gwaith hwn. Nid oedd y cwmpas yn gynhwysfawr (o reidrwydd), gan ganolbwyntio ar ddeuddeg maes polisi yn ymwneud ag allgáu cymdeithasol, a oedd yn dangos ansawdd amrywiol ar draws eu seiliau tystiolaeth. Er hynny, mae'r gronfa dystiolaeth a ddarperir gan y prosiect hwn yn rhoi sail i benderfynu ar ffurf bosibl strategaeth wrthdlodi effeithiol — a'r broses o'i chyflawni — ar gyfer Cymru a'r ystyriaethau a allai roi'r cyfle gorau i unrhyw strategaeth o'r fath lwyddo.

Mae'r diffiniad eang, aml-elfen o dlodi ac allgáu cymdeithasol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, a'i huchelgais ehangach i fynd i'r afael â'r broblem barhaus hon, yn darparu sylfaen ar gyfer ymdrechion strategol a gweithredol cydgysylltiedig ar draws nifer o lefelau llywodraethu a meysydd polisi.

Er mwyn i strategaeth fod yn fwy na rhestr o fentrau polisi perthnasol, mae angen canolbwyntio ar y modd y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y rhai sy'n gallu gweithredu yn gwneud hynny. Mae'n rhaid ystyried pum cwestiwn allweddol i helpu'r strategaeth i ddatblygu.

Mae gan dystiolaeth rôl bwysig i'w chwarae wrth lywio pa flaenoriaethau i'w gosod neu eu cynnwys mewn unrhyw 'strategaeth' wrthdlodi ar gyfer Cymru, ond dewis gwleidyddol fydd hwn yn y pen draw. Mae un enghraifft o sut gallai blaenoriaethu a nodi cymysgedd polisi o'r fath gael ei gyflawni - 'fframwaith blaenoriaethu' - wedi'i hamlinellu yn adran 4. Yn hytrach na bod yn gyfarwyddiadol neu'n ddiffiniol, mae'r fframwaith hwn yn amlinellu dull gweithredu neu 'safbwynt' arfaethedig a gefnogir gan y sylfaen dystiolaeth.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad strategaeth a chynllun gweithredu cynhwysfawr sy'n gweithredu mewn 'seilos' polisi yw'r 'hyn sy'n gweithio' i liniaru tlodi ac allgáu cymdeithasol. Ar sail y dystiolaeth a adolygwyd yma, mae dull traws-bolisi wedi'i dargedu'n fwy penodol er mwyn cyflawni camau gweithredu effeithiol yn fwy tebygol o lwyddo. Dylai'r dull gweithredu ganiatáu i nifer o randdeiliaid weithredu o'i amgylch, gyda rhwydwaith o ddulliau llywodraethu ac atebolrwydd i gefnogi ac atgyfnerthu hyn.

# Cyfeirnodau

Beck, D. (2018). **The Changing Face of Food Poverty with Special Reference to Wales.** Bangor: Prifysgol Bangor.

Sefydliad Bevan. (2020a). **A snapshot of poverty in Winter 2020.** Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan.

Sefydliad Bevan. (2020b). **Reducing the impact of Coronavirus on Poverty in Wales.** Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan.

Sefydliad Bevan. (2020c). **A Welsh Benefits System, how it can help solve poverty.** Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan.

Sefydliad Bevan. (2021). **Debt in the pandemic.** Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan.

Boston, C. (2017). **Transport challenges are keeping people trapped in a cycle of poverty.** Adalwyd o: https://www.iwa.wales/agenda/2017/06/transport-challenges-keeping-people-trapped-cycle-poverty/

Bristow, D., a Taylor-Collins, E. (2020). **Gweinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022a). **Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol: trosolwg o'r tystiolaeth ryngwladol.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022b). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar y cyflenwad tai fforddiadwy.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022c). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar allgáu digidol.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022d). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar addysg a gofal plant plentyndod cynnar.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022e). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar ansicrwydd bwyd.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022f). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar dlodi tanwydd.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022g). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar addysg bellach a sgiliau.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022h). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar ddyled aelwydydd.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022i). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar gamu ymlaen yn y gwaith.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022j). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar amgylchedd cymdogaeth.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022k). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar ddefnydd o drosglwyddiadau arian parod.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022l). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar anfantais trafnidiaeth.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Bucelli, I., a McKnight, A. (2022m). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar wasanaethau ieuenctid.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Carter, I. (2022a). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Carter, I. (2022b). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru: Adolygiad o dystiolaeth profiad bywyd.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Sefydliad Joseph Rowntree. (2018). **Tlodi yng Nghymru 2018.** Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Sefydliad Joseph Rowntree. (2020). **Tlodi yng Nghymru 2020.** Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Sefydliad Joseph Rowntree. (2021). **UK heading for the biggest overnight cut to the basic rate of social security since World War II.** Adalwyd o: https://www.jrf.org.uk/press/uk-heading-biggest-overnight-cut-basic-rate-social-security-world-war-ii

Kenway, P., Ayrton, C., Chandran, C. a Tortajada, I. (2022). **What makes an anti-poverty strategy effective?** Llundain: Sefydliad Polisi Newydd.

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith. (2020). **Understanding the potential impact of coronavirus in Wales.** Caerlŷr: Y Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Levitas, R., Pantazis, C., Fahmy, E., Gordon, D., Lloyd, E., a Patsios, D. (2007). **The Multi-Dimensional Analysis of Social Exclusion.** Bryste: Sefydliad Materion Cyhoeddus Bryste.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (2021). **Datganiad i'r Wasg: Wales unemployment could rise above 6% by 2023, NIESR research shows.** Adalwyd o: https://www.niesr.ac.uk/media/press-release-wales-unemployment-could-rise-above-6-2023-niesr-research-shows-14866

Roberts, M. (2022). **Profiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Rodriguez, J. ac Ifan, G. (2020). **Covid-19 ac economi Cymru: gweithio gartref.** Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru.

Ymchwil y Senedd. (2020). **Iechyd meddwl, pobl ifanc a'r pandemig.** Adalwyd o: https://research.senedd.wales/research-articles/mental-health-young-people-and-the-pandemic/

StatsCymru. (2020). **Canran yr holl unigolion, plant, oedolion o oedran gweithio a phensiynwyr sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol ar gyfer y DU, gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr rhwng 1994-95 i 1996-97 a 2016-17 i 2018-19 (cyfartaleddau 3 blynedd o flynyddoedd ariannol).** Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/householdbelowaverageincome-by-year

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. (2020). **Sector shutdowns during the coronavirus crisis: which workers are most exposed?** Adalwyd o: https://www.ifs.org.uk/publications/14791

TPAS Cymru. (2020). **Llais y Tenantiaid - Covid-19 - Craciau yn dechrau ymddangos**. Caerdydd: TPAS Cymru.

Y Cenhedloedd Unedig. (1995). **Datganiad a Rhaglen Weithredu Copenhagen, Uwchgynhadledd y Byd ar gyfer Datblygiad Cymdeithasol.** Efrog Newydd, y Cenhedloedd Unedig.

Llywodraeth Cymru. (2019). **Ystadegau economaidd allweddol: Tachwedd 2019.** Adalwyd o: https://llyw.cymru/ystadegau-economaidd-allweddol-tachwedd-2019

Llywodraeth Cymru. (2020a). **Tlodi plant: cynllun gweithredu pwyslais ar incwm 2020 i 2021.** Adalwyd o: https://llyw.cymru/tlodi-plant-cynllun-gweithredu-pwyslais-ar-incwm-2020-i-2021-html

Llywodraeth Cymru. (2020b). **Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: 2019-22. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/law-yn-llaw-at-iechyd-meddwl-cynllun-cyflawni-2019-22_0.pdf

Llywodraeth Cymru. (2021a). **Datganiad Ysgrifenedig: Estyn yr hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn ysgol gynradd. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-estyn-yr-hawl-i-gael-prydau-ysgol-am-ddim-i-bob-plentyn-ysgol-gynradd

Llywodraeth Cymru. (2021b). **Cael help gydag effeithlonrwydd ynni (aelwydydd). Adalwyd o:** https://llyw.cymru/cael-help-gydag-effeithlonrwydd-ynni-aelwydydd

Llywodraeth Cymru (2021c). **Y Rhaglen Lywodraethu — Diweddariad. Adalwyd o:** https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/programme-for-government-2021-to-2026.pdf

Llywodraeth Cymru. (2021d). **Y Cytundeb Cydweithio: 2021. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/y-cytundeb-cydweithio-2021

Llywodraeth Cymru (2021e). **Cronfa gymorth gwerth £51m i helpu teuluoedd sy'n dioddef waethaf o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Adalwyd o:** https://gov.wales/cronfa-gymorth-gwerth-51m-i-helpu-teuluoedd-syn-dioddef-waethaf-o-ganlyniad-ir-argyfwng-costau-byw

Llywodraeth Cymru (2021f). **Datganiad Ysgrifenedig: Y cynllun cenedlaethol cyntaf i sicrhau bod pobl yn hawlio budd-daliadau. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-yr-ymgyrch-genedlaethol-gyntaf-i-sicrhau-bod-pobl-yn-hawlio-budd-daliadau

Llywodraeth Cymru (2021g). **Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Adalwyd o:** https://llyw.cymru/bil-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-cymru

Llywodraeth Cymru (2021h). **Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021

Llywodraeth Cymru (2021i). **Strategaeth ddigidol i Gymru. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/strategaeth-ddigidol-i-gymru-html

Llywodraeth Cymru (2021j). **Strategaeth Gwaith Ieuenctid: trwy leisiau pobl ifanc. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/strategaeth-gwaith-ieuenctid-trwy-leisiau-pobl-ifanc

Llywodraeth Cymru. (2021k). **Symleiddio prosesau ymgeisio ar gyfer budd-daliadau a weinyddir gan awdurdodau lleol: arweinlyfr arferion gorau. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/symleiddio-prosesau-ymgeisio-ar-gyfer-budd-daliadau-weinyddir-gan-awdurdodau-lleol-arweinlyfr-html

Llywodraeth Cymru. (2021l). **Trechu tlodi tanwydd 2021 i 2035. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/trechu-tlodi-tanwydd-2021-i-2035-html

Llywodraeth Cymru. (2021m). **Tlodi plant: adroddiad terfynol ar y cynllun gweithredu pwyslais ar incwm. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/tlodi-plant-adroddiad-terfynol-ar-y-cynllun-gweithredu-pwyslais-ar-incwm-html#adran-74008

Llywodraeth Cymru (2022a). **Datganiad Ysgrifenedig: Pecyn Cymorth Costau Byw. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-pecyn-cymorth-costau-byw

Llywodraeth Cymru (2022b). **Cynnig Gofal Plant Cymru: Canllawiau i awdurdodau lleol. Adalwyd o:** https://llyw.cymru/y-cynnig-gofal-plant-i-gymru-canllawiau-i-awdurdodau-lleol

Llywodraeth Cymru (2022c). Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau. Adalwyd o: https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-sgiliau

Llywodraeth Cymru (2022d). Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol: canllawiau i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol. Adalwyd o: https://llyw.cymru/rhaglen-cyfleusterau-cymunedol-canllawiau-i-sefydliadau-cymunedol-gwirfoddol

# Awduron yr Adroddiad

Mae **Dan Bristow** yn Gyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Anna Skeels** yn Uwch-gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Manon Roberts** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Isabelle Carter** yn Brentis Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd
Sbarc/Spark
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD
UKRI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government